| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 30 Medi 2014 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Cynghorydd Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Pennaeth Cyllid ac Asedau |
| **Teitl:** | Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2013/14 (Atodiad 1) |

**1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â gweithgarwch buddsoddi a benthyca'r Cyngor yn ystod 2013/14. Mae hefyd yn rhoi manylion am yr hinsawdd economaidd ar y pryd ac mae'n dangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus.

**2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Prif ddiben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys a dangos cydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus yn ystod 2013/14.

**3 Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Gofynnir i'r Cabinet nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2013/14.

**4 Manylion am yr adroddiad**

4.1 Mae'r adroddiad yn rhoi manylion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor a throsolwg o'r cefndir economaidd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn adrodd ar oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys ac yn cadarnhau cydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

**5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn caniatáu i adnoddau ychwanegol gael eu cyfeirio at wasanaethau eraill y Cyngor.

**6 Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Dim yn berthnasol.

**7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

7.1 Nid oes angen hyn fel rhan o'r adroddiad hwn.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?

8.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda'i ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd

8.2 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cael ei ddiweddaru ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys drwy gydol y flwyddyn ac wedi adolygu'r adroddiad hwn cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

9.1 Mae Rheoli'r Trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau bod enillion rhesymol ar fuddsoddiadau yn cael eu cyflawni a bod dyled yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn ddoeth.

9.2 Mae'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys i'r Cyngor baratoi adroddiad blynyddol ar weithgarwch trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae gofyn i'r Cabinet nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2013/14 a'i gydymffurfiad â'r Dangosyddion Darbodus fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol Rheoli’r Trysorlys 2013/14.

## 10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae Rheolaeth y Trysorlys yn ei hanfod yn beryglus, ond mae'r Cyngor yn monitro ac yn rheoli’r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amhosibl dileu'r risgiau hyn yn gyfan gwbl. Mae strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y cyngor yn cael eu harchwilio'n flynyddol ac roedd yr adolygiad archwilio mewnol diweddaraf yn gadarnhaol heb unrhyw faterion arwyddocaol yn codi.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i God Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli'r Trysorlys sy'n pennu'r gofyniad i'r Cabinet dderbyn adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.